

Newidiadau Arfaethedig i Farciau Iechyd ac Adnabod y Deyrnas Unedig

Tudalen grynodedb yr ymgynghoriad

Dyddiad lansio:	11 Medi 2018	Dyddiad cau:	8 Hydref 2018
------------------------	---------------------	---------------------	----------------------

Pwy fydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn?

Rhanddeiliaid y diwydiant bwyd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac yn gweithredu o sefydliad cymeradwy. Bydd yr ymgynghoriad hefyd o ddiddordeb i Awdurdodau Gorfodi'r DU (Deyrnas Unedig) sy'n gyfrifol am amrywiaeth eang o safleoedd cymeradwy, yn ogystal â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am waith ardystio iechyd allforio.

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Pan na fydd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE), ni fydd gan y DU hawl i ddefnyddio unrhyw dalfyriad yn y marc iechyd ac adnabod a ddefnyddir gan sefydliadau cymeradwy ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n awgrymu aelodaeth o'r UE. Felly, rhaid diwygio ffurf y marciau iechyd ac adnabod ar gyfer cynhyrchion o sefydliadau cymeradwy yn y DU i adlewyrchu hyn a phennu'r fformat yn neddfwriaeth y DU. Yr ASB sy'n gyfrifol am ddatblygu'r newid deddfwriaethol hwn o ran cyfraith bwyd, ac mae'r Asiantaeth yn ceisio barn ar ei chynigion.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Diben yr ymgynghoriad hwn yw:

- Ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch y newidiadau arfaethedig i ffurf marc iechyd ac adnabod y DU.
- Ceisio barn rhanddeiliaid ar gynigion yr ASB i ganiatáu i'r diwydiant ddefnyddio deunydd pecynnu sydd â'r hen farc adnabod, unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE, at ddefnydd domestig yn unig, er mwyn lleihau effaith costau a gwastraff ar y diwydiant.
- Ceisio barn ar gyfnod o amser a ystyrir yn gymesur i ganiatáu i ddiwydiant ddefnyddio deunydd pecynnu sy'n defnyddio'r hen farc adnabod.
- Gofyn i'r diwydiant ddarparu tystiolaeth am effaith y newidiadau rydym yn eu cynnig.

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

David Lowe
Cyfarwyddiaeth Strategaeth Rheoleiddio a
Chyfreithiol

Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)
Ffôn: 07881857759

Asiantaeth Safonau Bwyd
Llawr 7, Clive House, 70 Petty France
SW1H 9EX

E-bost: csulondontransactions@food.gov.uk

A oes Asesiad Effaith ynghlwm?	Oes ☐	Nac oes ☒
---------------------------------------	-------------------------------------	--


Newidiadau arfaethedig i farciau iechedd ac adnabod y DU

Manylion yr ymgynghoriad

1. Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y Deyrnas Unedig (DU) i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Ers hynny, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd safonau diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr uchel yn cael eu cynnal pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.
2. Bydd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn troi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig o 29 Mawrth 2019, y diwrnod y mae'r DU yn peidio â bod yn aelod o'r UE. Bydd darpariaethau'r Ddeddf hon yn caniatáu cymryd camau i sicrhau bod rheolaethau allweddol o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal o'r diwrnod cyntaf.
3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ategu ymgynghoriad yr ASB 'Newidiadau arfaethedig i'r marciau iechedd ac adnabod' a lansiwyd 27 Gorffennaf 2018 ac mae'n rhoi cyfle pellach i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid fynegi eu barn ar gynigion yr ASB ar fformat y marciau iechedd ac adnabod y mae'n rhaid eu rhoi ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gynhyrchwyd mewn sefydliadau cymeradwy. Mae'r newid deddfwriaethol hwn yn angenrheidiol gan na fydd busnesau'r DU bellach yn cael defnyddio'r marc iechedd neu adnabod yn y fformat a nodir yn deddfwriaeth yr UE ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd yn yr UE.

Diweddarau'r marciau iechedd ac adnabod

4. Rhaid nodi marc iechedd ac adnabod newydd y DU yn Deddf y DU sy'n cydnabod na fydd y DU bellach yn Aelod-wladwriaeth yr UE. Mae'r ASB yn bwriadu cadw fformat y marc iechedd ac adnabod presennol a chael gwared ar y talfyriad 'EC' sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth yr UE.
5. Bydd dimensiynau a ffurf y marciau iechedd ac adnabod presennol yn aros yr un fath, gan gynnwys y talfyriad "UK" sy'n cynrychioli Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn parhau i fod yn un marc sy'n cynnwys rhif cymeradwyo'r sefydliad, ni fydd y rhif yn newid chwaith. Gweler y lluniau isod.



Marc Iechedd

Marc Adnabod

6. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod cynnyrch y DU yn parhau i arddangos marc priodol sy'n dangos yn glir bod y cynnyrch wedi bod yn destun y gwiriadau iechedd a lles llym a fydd yn parhau ar ôl i'r DU adael yr UE.
- **Oes gennych chi unrhyw farn neu bryderon ynglŷn â'r newid arfaethedig i'r marc iechedd ac adnabod?**

Defnyddio Marciau Iechyd ac Adnabod 'EC' Presennol ar ôl ymadael â'r UE

7. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU a'r UE wrthi'n trafod trefniadau trosiannol, a bydd hyn yn cynnwys manylion ynghylch sut caiff cynhyrchion y DU â marc iechyd neu adnabod 'EC' eu trin pan fo'r DU yn ymadael â'r UE. Mae'r UE wedi datgan na fydd y newid hwn, mewn egwyddor, yn effeithio ar gynnyrch a gynhyrchir hyd at y dyddiad pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ond mae penderfyniad terfynol ar y mater hwn yn dibynnu ar y trefniant trosiannol y cytunir arni.
8. Mae'r ASB yn rhagweld y bydd unrhyw drefniadau trosiannol a bennir yn caniatáu i fusnesau'r DU barhau i ddefnyddio eu marc adnabod presennol yn ystod y cyfnod trosiannol. Os na fydd cytundeb trosiannol, a/neu unwaith y bydd unrhyw drefniadau trosiannol wedi'u cytuno, ni chaniateir i fusnesau a gymeradwyir yn y DU roi unrhyw gynhyrchion ar y farchnad, y tu allan i farchnad ddomestig y DU gyda'r marciau iechyd neu adnabod 'EC' cyfredol.
9. Mae'r ASB yn asesu effaith y newid hwn ar fusnesau'r DU ac felly'n croesawu unrhyw dystiolaeth ynghylch yr asesiad hwn. Yn dilyn trafodaethau â busnesau ers i'r DU bleidleisio i ymadael â'r UE, ac o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan fusnesau yn y gorffennol yn ymwneud â materion marciau iechyd ac adnabod, rydym ni wedi datblygu rhai rhagdybiaethau cychwynnol.
 - Rydym ni'n deall ei bod hi'n rhesymol tybio y bydd busnesau yn cadw deunydd pecynnu rhwng 6-12 mis ar unrhyw adeg.
 - Rydym ni'n deall y gall rhai busnesau ddefnyddio eu marciau adnabod ar ddeunydd pecynnu yn y sefydliad lle mae'r cynnyrch yn cael ei gynhyrchu, yn unol ag argraffu dyddiadau 'defnyddio erbyn' neu 'ar ei orau cyn'.
 - Cadarnhau ein bod ni'n credu bod yr UE wedi dilyn yr arfer o ganiatáu i fusnesau osod label dros marciau adnabod, yn y gorffennol.
 - Cadarnhau y dylid caniatáu i fusnesau'r DU ddefnyddio stociau presennol deunydd pecynnu sy'n cynnwys yr hen farc adnabod ar gyfer cynhyrchion y bwriedir eu rhoi ar farchnad genedlaethol y DU yn unig.
 - Byddai angen cyfyngu amser ar drefniadau'r DU sy'n caniatáu parhau i ddefnyddio deunydd pecynnu sy'n defnyddio marc adnabod 'EC' ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu rhoi ar y farchnad genedlaethol yn unig. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bresennol fod busnes yn cadw deunydd pecynnu am 6-12 mis, byddem yn disgwyl gosod cyfnod o ddim mwy na 12 mis.
 - Os yw trefniadau trosiannol yn caniatáu ar gyfer parhau i ddefnyddio marciau iechyd neu adnabod 'EC' ar ôl 29 Mawrth 2019 am gyfnod penodol, byddem yn ystyried hyn wrth benderfynu pa mor hir y byddem yn caniatáu defnyddio deunydd pecynnu sy'n defnyddio'r hen farc adnabod. Felly, os bydd cytundeb trosiannol 2 flynedd, ni fyddem yn rhagweld yr angen i unrhyw fusnes yn y DU barhau i ddefnyddio deunydd pecynnu sy'n cynnwys y marc adnabod 'EC' unwaith y bydd y cyfnod trosiannol wedi dod i ben.

10. Rydym ni'n croesawu eich barn, gyda thystiolaeth lle bynnag y bo modd, ar effaith y newid hwn a'r rhagdybiaethau uchod.

Effaith ehangach

11. Ein nod yw cadw'r newid i'r marciau iechyd ac adnabod mor syml â phosibl gan achosi'r baich lleiaf posib. Rydym ni am leihau'r effaith ar y diwydiant a sicrhau cydnabyddiaeth a hyder barhaus yn niogelwch ac ansawdd cynhyrchion yn y DU, yr UE ac i'r gwledydd hynny yr ydym ni'n allforio ein cynnyrch y tu allan i'r UE.
- **A oes unrhyw effeithiau neu ystyriaethau eraill sy'n codi o newid marciau iechyd ac adnabod y DU nad ydym wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?**
12. Mae'n bwysig bod yr ASB yn asesu effaith y newid hwn yn llwyr ac felly byddem yn croesawu unrhyw farn neu dystiolaeth i gefnogi ein hasesiad o'r effaith hon.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

13. Mae'r ASB wedi ysgrifennu at bob sefydliad bwyd ac awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan roi gwybod iddynt am y mater a'u paratoi ar gyfer y newid hwn yn ogystal â cheisio eu barn yn uniongyrchol ar gynigion yr ASB a'r effeithiau tebygol. Os ydych chi wedi ymateb i'r ASB o'r blaen ar y pwnc hwn, bydd eich barn yn cael ei ystyried wrth adolygu'r ymgynghoriad hwn.

Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. **Oes gennych chi unrhyw farn neu bryderon ynghylch y dull arfaethedig i newid y marc iechyd ac adnabod?**
2. **A yw'n rhesymol tybio y bydd busnes, ar gyfartaledd, yn cadw gwerth 6-12 mis o ddeunydd pecynnu ar unrhyw adeg?**
3. **Oes gennych chi unrhyw wybodaeth a allai ein helpu i ddeall cyfran y busnesau a fydd yn gosod eu marc adnabod yn uniongyrchol ar ddeunydd pecynnu yn y sefydliad lle mae'r cynnyrch yn cael ei gynhyrchu?**
4. **A yw'n rhesymol tybio y byddai busnesau'r DU am allu defnyddio eu deunydd pecynnu presennol sy'n cynnwys yr hen farc adnabod ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu gosod ar farchnad genedlaethol y DU yn unig?**
5. **Byddem yn croesawu'ch barn ar p'un a yw'r cynigion i ganiatáu parhau i ddefnyddio deunydd pecynnu sy'n defnyddio marc adnabod 'EC' ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu rhoi ar y farchnad genedlaethol am gyfnod o 12 mis ar ôl i'r DU ymadael â'r UE yn gymesur. (Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod busnesau fel arfer yn cadw deunydd pecynnu rhwng 6 a 12 mis).**
6. **A oes unrhyw effeithiau neu ystyriaethau eraill sy'n codi o newid marciau iechyd ac adnabod y DU nad ydym wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?**
7. **Rydym ni'n croesawu unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill sydd gennych mewn perthynas â'r mater hwn.**

Dogfennau perthnasol eraill

14. Mae'r ddolen isod yn cynnwys llythyr cyn ymgynghori'r ASB, Newidiadau Arfaethedig i'r Marciau Iechyd ac Adnabod a lansiwyd ar 27 Gorffennaf 2018.

<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/newidiadau-arfaethedig-ir-marciau-iechyd-ac-adnabod>

Ymatebion

15. Mae angen ymatebion erbyn diwedd y dydd 8 Hydref 2018. **Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).**

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

David Lowe

Cyfarwyddiaeth Strategaeth Rheoleiddio a Chyfreithiol

Atodiad A:Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam ein bod yn casglu eich data personol a'r hyn a wnawn â'r data hwnnw

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hyn rydym ni'n cadw gwybodaeth personol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cadw'r wybodaeth hon am uchafswm o 7 mlynedd wedi iddi ddod i law.

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.